**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 30 MEDI 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 30 Medi 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge a Derek Butler

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Y Rheolwr Datblygu; Y Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Swyddogion Cynllunio; Yr Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

**88. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cynghorydd Paul Johnson y Cynghorydd Richard Lloyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Christine Jones.

Enwebodd y Cynghorydd Owen Thomas y Cynghorydd Mike Peers yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones.

O'i roi i bleidlais, penodwyd y Cynghorydd Richard Lloyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Richard Lloyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.
.

**89. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 7.2 (061154) ar y rhaglen, gan fod aelod o'i deulu'n cael ei gyflogi gan Clwyd Alyn (yr ymgeisydd ar y cyd).

**90. SYLWADAU HWYR**

Ni chafwyd unrhyw sylwadau hwyr.

**91. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Richard Lloyd a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 92. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr argymhellwyd gohirio'r eitem ganlynol er mwyn i'r asiant (ar ran yr ymgeisydd) gael cyfle i baratoi datganiad o blaid y cais, gan na chafodd ei hysbysu y byddai'r eitem yn cael ei hystyried yn y cyfarfod hwn. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno i ohirio'r eitem, bydd yn cael ei chynnwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem Rhif 7.2 (061154) ar y Rhaglen - Cais llawn - Datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer 90 o unedau llety preswyl (y bydd 40% ohonynt yn unedau fforddiadwy a byw â chymorth), man agored cyhoeddus, gwaith tirlunio, mynediad i gerddwyr ac i gerbydau oddi ar y briffordd, gwelliannau i isadeiledd priffyrdd a llwybrau cerdded lleol ym Mhlas Aney, Ffordd Rhuthun, Yr Wyddgrug.**

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Dunbar y gohiriad, a gafodd ei eilio'n briodol. O'i roi i bleidlais, cafodd yr eitem ei gohirio.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Richard Jones mewn perthynas â'r trafferth a gafodd wrth geisio lawrlwytho'r rhaglen oherwydd maint y ddogfen, cytunodd y Prif Swyddog i ystyried darparu atodiad ar wahân i'r rhaglen er mwyn rhannu copïau o ffotograffau a chynlluniau pob eitem yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai eitem rhif 7.2 (061154) ar y rhaglen yn cael ei gohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor am y rheswm a nodwyd.

## 93. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**
Cofnodi'r penderfyniadau fel y'u cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

## 94. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.17 pm)

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

……………………………………………
**Cadeirydd**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO 30 MEDI 2020

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059999 | Cyngor Cymuned Llaneurgain | Cais amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygu tir i ddarparu parc bythynnod/cabannau i gynnwys cabannau unllawr a deulawr, swyddfa safle gyda siop a chyfleuster llogi beiciau ym Mharc Gwledig Llaneurgain. | Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Marion Bateman, ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan un o'r trigolion lleol ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. |
| 061154 | Cyngor Tref Yr Wyddgrug | Cais llawn - Datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer 90 o unedau llety preswyl (y bydd 40% ohonynt yn unedau fforddiadwy a byw â chymorth), man agored cyhoeddus, gwaith tirlunio, mynediad i gerddwyr ac i gerbydau o'r briffordd, gwelliannau i isadeiledd priffyrdd a llwybrau cerdded lleol. | Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Geoff Collett, ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan un o'r trigolion lleol ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Cafodd datganiad o gefnogaeth gan un o'r trigolion lleol ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen. | Gohirio'r cais i gyfarfod nesaf y Pwyllgor am y rheswm a nodwyd. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 061429 | Cyngor Tref Yr Wyddgrug | Cais amlinellol – Annedd newydd yn 2 Wood Green, Yr Wyddgrug. | Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan Grŵp Trigolion Lleol ei atodi i'r adroddiad.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Chris Bithell, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061158 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn – Newid defnydd o siop llawr gwaelod i uned breswyl. | Cafodd datganiad o wrthwynebiad gan un o'r trigolion lleol ei atodi i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058946 | Cyngor Cymuned Coed-llai | Cais llawn - Datblygiad preswyl arfaethedig yn Ffatri 2, Pontybodkin Hill, Coed-llai. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061171 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais Llawn - Codi adeilad cyfleustodau deulawr newydd a chreu llawr caled o'i gwmpas yn Valspar, Parkway, Parc | Siaradodd y Cynghorydd Christine Jones, fel Aelod Lleol, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. | | |